**Memorandwm Esboniadol ar gyfer** Rheoliadau Cynghorau Iechyd Cymuned (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) (Diwygio) 2020

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Cynghorau Iechyd Cymuned (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) (Diwygio) 2020. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Vaughan Gething AS
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
7 Mai 2020

**RHAN 1**

## 1. Disgrifiad

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cynghorau Iechyd Cymuned (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2010 (fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Cynghorau Iechyd Cymuned (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015) ("y Rheoliadau Cynghorau Iechyd Cymuned").

Yn ogystal â nodi gofynion ar gyfer Cyfansoddiad a Gweithdrefnau Cynghorau Iechyd Cymuned (CICau), gosododd y Rheoliadau Cynghorau Iechyd Cymuned yr uchafswm cyfnod yn y swydd ar gyfer:

- aelodau o CICau a benodir gan Weinidogion Cymru, sefydliadau gwirfoddol ac awdurdodau lleol
- aelodau cyfetholedig (heb hawliau pleidleisio) o CICau a benodir gan y CICau eu hunain
- yr uchafswm cyfnod y caiff aelod o CIC wasanaethu fel cadeirydd neu is-gadeirydd CIC neu fel cadeirydd neu is-gadeirydd pwyllgor lleol CIC.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Gosodir yr offeryn statudol o dan y 'Weithdrefn Negyddol' ac mae'n ymateb i'r penderfyniad i atal y broses penodiadau cyhoeddus yng Nghymru dros dro oherwydd y sefyllfa COVID-19. O ystyried yr ansicrwydd ynghylch hyd y sefyllfa COVID-19 a'r ffaith y bydd CICau yn cael eu diddymu a Chorff Llais y Dinesydd yn cael ei sefydlu, ar ôl i Fil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) gael y Cydsyniad Brenhinol, mae'r offeryn statudol yn gwneud diwygiadau i sicrhau bod y trefniadau aelodaeth yn addas i'r diben yn ystod y cyfnod pontio.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

Gwneir yr offeryn o dan adrannau 203(2), (4), (9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, a pharagraff 2 o Atodlen 10 iddi.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Mewn ymateb i'r pandemig COVID-19, ar 19 Mawrth hysbysodd Llywodraeth Cymru bob bwrdd iechyd a holl Ymddiriedolaethau'r GIG y byddai gweithgarwch penodiadau cyhoeddus yn cael ei atal dros dro, a hynny ar unwaith. Cafodd cyrff hyd braich wybod yn ffurfiol am hyn mewn llythyr gan yr Ysgrifennydd Parhaol ar 23 Mawrth 2020. Mae'r gweithgarwch wedi'i atal tan fis Medi 2020. Bydd y sefyllfa yn cael ei hadolygu bryd hynny.

Mae gan hyn oblygiadau i CICau, gan fod hanner eu haelodau yn cael eu penodi gan Weinidogion Cymru o dan y trefniadau penodiadau cyhoeddus. Mae'r Rheoliadau Cynghorau Iechyd Cymuned ar hyn o bryd yn pennu uchafswm cyfnod o 8 mlynedd o wasanaethu fel aelod o CIC. Ar y cyd â'r

Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned, aethom ati i ganfod sawl aelod o CICau fyddai'n cyrraedd diwedd eu cyfnod yn y swydd yn y 12 mis nesaf. Mae yna nifer sylweddol a bydd cyfnod y mwyafrif ohonynt yn dod i ben ar neu cyn 31 Gorffennaf 2020.

Mae yna eisoes seddi gwag ar CICau. O ganlyniad, er mwyn sicrhau nad yw eu haelodaeth yn teneuo ymhellach, a allai niweidio eu capasiti a'u gallu i gyflawni eu swyddogaethau, mae'r Rheoliadau hyn yn dileu'r uchafswm o 8 mlynedd y caiff aelod o CICau fod yn y swydd ar hyn o bryd.

Byddai hyn yn galluogi aelod presennol o CIC sydd wedi cyrraedd yr uchafswm o 8 mlynedd i gael ei ailbenodi'n aelod o'r CIC, cyhyd â'i fod yn bodloni'r gwiriadau arferol a wneir cyn ailbenodi, megis perfformiad a phresenoldeb boddhaol.

Mae yna hefyd lawer o aelodau cyfetholedig y bydd eu huchafswm cyfnod yn y swydd, fel y'i pennir yn y Rheoliadau Cynghorau Iechyd Cymuned, yn dod i ben ddiwedd mis Mai. Mae aelodau cyfetholedig yn cyflawni swyddogaethau hanfodol i CICau ac mae trafodaethau â'r Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned wedi amlygu angen i'r aelodau cyfetholedig barhau yn eu swyddi, yn enwedig gan na fydd modd yn y dyfodol agos recriwtio aelodau cyfetholedig i'w disodli oherwydd y cyfyngiadau presennol yn sgil yr ymateb i COVID-19. Hefyd, ni fydd modd cynnal proses penodiadau cyhoeddus i lenwi'r bylchau a fyddai'n ymddangos.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn estyn y cyfnod y caiff aelod o CIC wasanaethu fel cadeirydd neu is-gadeirydd CIC o 3 blynedd i 5 mlynedd. Gan fod gan gadeiryddion y CICau unigol sedd ar Fwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru, golyga hyn fod y cyfnod y caiff cadeirydd CIC eistedd ar y Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned hefyd yn cael ei estyn i 5 mlynedd.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn estyn y cyfnod y caiff aelod o CIC wasanaethu fel cadeirydd neu is-gadeirydd pwyllgor lleol CIC o 2 flynedd i 5 mlynedd. Mae'r Rheoliadau Cynghorau Iechyd Cymuned yn pennu swyddogaethau pwyllgorau lleol sy'n cynnwys monitro cynllunio a darparu gwasanaethau'r GIG yn eu dosbarth a'u cadw dan arolygiaeth barhaus.

Gwnaed y newidiadau hyn mewn ymateb i'r pandemig COVID-19 i sicrhau parhad yng nghadeiryddion ac is-gadeiryddion CICau a'u pwyllgorau lleol, sy'n cyflawni rolau arwain hanfodol yn y CICau unigol.

Serch hynny, yn wahanol i lawer o reoliadau a wneir mewn ymateb i'r pandemig COVID-19, ni chynigir y bydd gan effaith y Rheoliadau hyn derfyn amser.

Yn unol â darpariaethau Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru), bydd Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn disodli CICau. Y bwriad gwreiddiol oedd sefydlu'r Corff Llais y Dinesydd newydd i fod ag effaith o 1 Hydref 2021 ymlaen, ond oherwydd yr ymateb i COVID-19, y bwriad nawr yw sefydlu'r Corff newydd o fis Ebrill 2022 ymlaen. Mae cadw'r CICau ar waith yn llawn yn y cyfnod pontio hwn yn ymrwymiad Gweinidogol a wnaed yn ystod proses graffu Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru). Mae hyn yn bwysig i sicrhau bod eu swyddogaethau yn parhau i gael eu cyflawni ledled Cymru.

Mae proses recriwtio CICau yn wahanol i brosesau penodiadau cyhoeddus eraill gan fod Gweinidogion yn aml yn ceisio recriwtio tua 50 o aelodau. Felly, mae’r penodiadau hyn yn cymryd mwy o amser i’w gwneud ac o ganlyniad, hyd yn oed ar ôl diwedd y cyfnod pan fo penodiadau wedi’u hatal, byddai’n cymryd 4-6 mis pellach i gwblhau’r broses recriwtio. Felly, byddai angen i unrhyw drefniant dros dro i roi’r newidiadau ar waith fod yn ddigon hir i gynnwys hyn, a fyddai’n mynd â ni’n agos at ddyddiad sefydlu arfaethedig Corff Llais y Dinesydd. Amcangyfrifir mai ym mis Ebrill 2022 y bydd y dyddiad sefydlu hwnnw.

Bydd y diwygiadau a wneir o ganlyniad i’r pandemig COVID-19 o gymorth i ddelio â phroblemau o ran recriwtio aelodau newydd, drwy ganiatáu i aelodau presennol, profiadol barhau yn y swydd y tu hwnt i’r uchafswm presennol, sef 8 mlynedd. Bydd y diwygiadau hefyd yn cynorthwyo’r CICau i barhau i weithredu’n llawn ac â chworwm yn y cyfnod pontio rhwng nawr a sefydlu’r Corff Llais y Dinesydd newydd.

## 5. Ymgynghori

Ni chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus oherwydd yr angen i gyflwyno’r newid polisi hwn ar fyrder mewn ymateb uniongyrchol i’r cyfyngiadau yn sgil COVID-19. Serch hynny, mae swyddogion wedi ymgysylltu â Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru ynglŷn â’r newidiadau. Roedd hyn yn cynnwys profi a fydd y diwygiadau arfaethedig yn galluogi’r CICau a Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru i weithredu yn ystod y cyfnod ymateb i COVID-19 pan fo’r broses penodiadau cyhoeddus yng Nghymru wedi’i hatal dros dro, a’r tu hwnt i hynny yn y cyfnod pontio rhwng nawr a sefydlu’r Corff Llais y Dinesydd newydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

**RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL**

## 6. Yr opsiynau

Ystyriwyd dau opsiwn:

> Opsiwn 1: - Gwneud dim, cadw Rheoliadau Cynghorau Iechyd Cymuned (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2010 (fel y'u diwygiwyd) fel y maent mewn grym ar hyn o bryd
>
> Opsiwn 2: - Diwygio Rheoliadau Cynghorau Iechyd Cymuned (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2010 (fel y'u diwygiwyd)

**Opsiwn 1: Gwneud dim, cadw Rheoliadau Cynghorau Iechyd Cymuned (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) fel y maent mewn grym ar hyn o bryd**

Heb wneud Rheoliadau diwygio, bydd rhaid i bob aelod o CIC sy'n cyrraedd diwedd ei uchafswm o 8 mlynedd o wasanaethu adael ei benodiad gyda'r CIC. Bydd hyn yn ychwanegu at nifer y seddi sydd eisoes yn wag mewn CICau yng Nghymru ar adeg pan fônt o dan bwysau yn sgil gwaith ar yr ymateb i COVID-19.

Yn yr un modd, bydd yn ofynnol i bob cadeirydd ac is-gadeirydd CICau lleol sydd wedi gwasanaethu am 3 blynedd, a phob cadeirydd ac is-gadeirydd pwyllgorau lleol CICau sydd wedi gwasanaethu am 2 flynedd, gamu i lawr o'i swydd.

Bydd rhaid i bob aelod cyfetholedig o CIC sydd wedi gwasanaethu am 2 flynedd adael ei benodiad.

Mae pob penodiad cyhoeddus wedi'i atal tan fis Medi 2020. Bydd y sefyllfa yn cael ei hadolygu bryd hynny. Efallai y bydd angen ailddechrau penodiadau cyhoeddus yn raddol. Mae proses penodiadau cyhoeddus aelodau o CICau yn cymryd tua 4-6 mis o'r dechrau hyd y diwedd. Felly, byddai rhaid dygymod ag unrhyw seddi gwag tan fis Mawrth 2021, ar y cynharaf, ac yn ddigon posibl yn hwyrach.

Ni fyddai Opsiwn 1 yn cyflawni'r amcan polisi i sicrhau y caiff CICau gadw aelodau a fydd yn cyrraedd diwedd eu huchafswm o 8 mlynedd o wasanaethu yn ystod y cyfnod pan fo penodiadau cyhoeddus wedi'u hatal. Mae hyn yn bwysig i sicrhau y gall CICau barhau i gyflawni eu swyddogaethau yn ystod yr ymateb i COVID-19 a'r tu hwnt. Byddai Opsiwn 1 hefyd yn arwain at golli aelodau profiadol o CICau, gan gynnwys cadeiryddion CICau lleol, sy'n gryn anfantais wrth inni ddynesu at y cyfnod pontio cyn sefydlu'r Corff Llais y Dinesydd newydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Hefyd, ni fyddai'n caniatáu i gadeiryddion ac is-gadeiryddion profiadol CICau, na chadeiryddion nac is-gadeiryddion pwyllgorau lleol, aros yn y swydd os byddant yn dewis gwneud hynny ac os bydd eu CIC yn eu hailethol. Yn yr un modd, byddai rhaid i aelodau cyfetholedig adael eu swydd ar ôl gwasanaethu am ddwy flynedd heb unrhyw hyblygrwydd i ganiatáu ailbenodi.

### Opsiwn 2: Diwygio Rheoliadau Cynghorau Iechyd Cymuned (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) fel y maent mewn grym ar hyn o bryd

Bydd diwygio'r Rheoliadau Cynghorau Iechyd Cymuned yn y ffordd a ddisgrifir yn Rhan 1 yn hwyluso'r amcan polisi i alluogi aelodau profiadol o CICau sy'n dymuno gwneud hynny ac sy'n bodloni'r gofynion perfformiad a phresenoldeb i gael eu hailbenodi. Bydd hefyd yn rhoi'r hyblygrwydd i CICau ailbenodi aelodau cyfetholedig sy'n cyrraedd diwedd eu huchafswm o ddwy flynedd yn y swydd.

Bydd estyn y cyfnod y caiff aelodau o CICau wasanaethu fel cadeirydd neu is-gadeirydd CIC, neu fel cadeirydd neu is-gadeirydd pwyllgor lleol CIC, hefyd yn galluogi aelodau o CICau sydd â phrofiad yn y rolau arwain allweddol hyn i gael eu hailethol fel y cânt wasanaethu am hyd at uchafswm o 5 mlynedd. Bydd hyn yn rhoi'r cyfle i aelodau o CICau sy'n brofiadol yn y rolau arwain hyn barhau yn y swydd yn ystod yr ymateb i COVID-19 ac yn ystod y cyfnod pontio pan fydd y Corff Llais y Dinesydd newydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cael ei sefydlu.

## 7. Costau a manteision

### Opsiwn 1: Gwneud dim, cadw Rheoliadau Cynghorau Iechyd Cymuned (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) fel y maent mewn grym ar hyn o bryd

Nid oes costau ychwanegol na photensial i arbed costau yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

Serch hynny, ni fyddai'r opsiwn hwn yn cyflawni'r un o'r manteision polisi penodedig ar gyfer diwygio'r Rheoliadau Cynghorau Iechyd Cymuned.

### Opsiwn 2: Diwygio Rheoliadau Cynghorau Iechyd Cymuned (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) fel y maent mewn grym ar hyn o bryd

Mae potensial y byddai diwygio'r Rheoliadau Cynghorau Iechyd Cymuned yn y ffordd a gynigir yn Rhan 1 yn arwain at gostau cyfle bach iawn i Swyddfa'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus gan y bydd angen i Weinidogion Cymru geisio cymeradwyaeth cyn penodi aelod o CIC am drydydd tymor. Byddai costau o'r fath yn digwydd mewn perthynas â chyfnod diffiniedig rhwng nawr a phan fydd y Corff Llais y Dinesydd newydd wedi'i sefydlu (amcangyfrifir mai mis Ebrill 2022 fydd hynny).

Ni ragwelir costau ychwanegol ar gyfer CICau, y sector gwirfoddol, busnesau nac awdurdodau cyhoeddus.

Efallai y bydd Gweinidogion Cymru yn arbed rhai costau os bydd rhai aelodau o CICau yn cael eu hailbenodi, yn hytrach na phenodi aelodau cwbl newydd. Serch hynny, bach iawn fyddai unrhyw arbedion o'r fath.

## 8. Ymgynghori

Ni chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus oherwydd yr angen i gyflwyno'r newid polisi hwn ar fyrder mewn ymateb uniongyrchol i'r cyfyngiadau yn sgil COVID-19.

## 9. Asesu'r gystadleuaeth

Ar ôl cwblhau'r prawf Hidlo'r Gystadleuaeth, canfuwyd na fydd yna effeithiau ar gystadleuaeth.

## 10. Adolygu ar ôl gweithredu

*Fel arfer, argymhellir adolygu deddfwriaeth 3 blynedd ar ôl ei gweithredu. Serch hynny, mae terfyn amser anochel i effaith y Rheoliadau hyn gan fod disgwyl y bydd Corff Llais y Dinesydd wedi'i sefydlu o fis Ebrill 2022 ymlaen. Felly, nid oes cynigion ar gyfer adolygiad ffurfiol ar ôl gweithredu.*

*Serch hynny, mae swyddogion mewn cysylltiad rheolaidd â Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru a byddant yn cael adborth anffurfiol cyson ar effaith y Rheoliadau.*